



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arfarniad o waith Prevent Cyngor Mwslimiaid Cymru

Crynodeb o'r ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 23/2012

Fe gafodd OPM eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru (LIC) ym mis Hydref 2010 i wneud arfarniad o waith Cyngor Mwslimiad Cymru / Muslim Council of Wales (MCW) yn atal eithafiaeth dreisiol, rhaglen o'r enw ADFYWIAD. Nod yr arfarniad oedd rhoi i LIC:

1) Arfarniad o'r broses, i weld beth oedd wedi cael ei ddarparu o dan y rhaglen, ac a oedd wedi cyrraedd at wahanol rannau o'r gymdeithas Fwslimaidd.

2) Arfarniad o'r deilliant, i weld a oedd effeithiau cadarnhaol wedi digwydd yn y cyfnod canolig.

3) Cyngor ac argymhellion ar sut gallai cydran Prevent y Strategaeth Cydlyniad Cymdeithasol gael ei gweithredu'n fwy effeithiol.

Canfyddiadau:

Nodau ac amcanion rhaglen ADFYWIAD yn ei chyfanrwydd oedd i:

- adeiladu capasiti Mosgiau, madrassahs and sefydliadau Mwslimaidd i wella'u gallu i ganfod a chefnogi'r rhai roedd risg iddynt droi at eithafiaeth dreisiol.
- cynyddu cymryd rhan a diddordeb mewn materion dinesig gan ferched a phobl ifanc Mwslimaidd
- datblygu sgiliau arweinyddiaeth ieuencid Mwslimaidd
- gwneud ieuencid Mwslimaidd yn llai agored i rethreg eithafol ac i gael eu recriwtio gan grwpiau eithafol

Yr elfennau allweddol o'r rhaglen, wedi'u cytuno rhwng MCW a Llywodraeth Cymru (LIC), oedd:

- Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ADFYWIAD: Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gydag ymddiriedolwyr mosgiau, stondinau marchnata, a thrafodaeth ar Radio Ramadan
- Hyfforddiant llywodraethu ac amddiffyn plant i sefydliadau Mwslimaidd yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam.
- Ymgysylltu a darparu hyfforddiant: Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhwng swyddogion o'r heddlu ac Imams a sesiynau ddim ond yn digwydd unwaith ar ddinasyddiaeth, hunaniaeth Mwslimaidd Prydeinig, a chyfrifoldeb dinesig.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

- Sesiynau hyfforddi ‘Radical Middle Way’ i fosciau, madrassahs a sefydliadau Mwslimaidd yng Nghaerdydd a Chasnewydd
- Prosiectau datblygu ieuencid iLead
- Gweithgareddau ‘cadw’n heini’ misol i ferched ifanc
- Dosbarthiadau ESOL i Imams: Doedd materion ddim wedi symud ymlaen yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen, er bod grŵp bychan o Imams ar hyn o bryd yn mynychu cwrs 3 mis gyda golwg ar ymuno gyda darpariaeth prif lif ar y diwedd
- Ijazahs i Imams – tystysgrif yn dangos eu bod wedi’u hawdurdodi i gyflwyno gwybodaeth Islamaidd: doedd yr elfen hon o’r rhaglen ddim wedi cael ei chyflawni.

Methodoleg

Fe wnaeth yr arfarniad hwn ddefnyddio dull damcaniaeth newid, oedd yn cynnwys datblygu model yn dweud pa ddeilliannau roedd bwriad i’r rhaglen eu cyflawni, y gweithgareddau ar gyfer cyflawni’r deilliannau hynny, a’r peirianweithiau newid yn cysylltu’r gweithgareddau gyda’r deilliannau

oedd wedi’u bwriadu. Fe wnaeth OPM ddefnyddio dull ansoddol yn bennaf ar gyfer arfarnu’r rhaglen, yn cynnwys 5 grŵp ffocws ac 14 cyfweiliad mewn dyfnder. Roedd y gwaith maes mewn dwy ran. Fe ddigwyddodd rhan gyntaf y gwaith maes rhwng Ebrill a Gorffennaf 2011 a’r ail ran rhwng Ionawr a Mawrth 2012. Fe wnaeth OPM hefyd drefnu arolwg byr ar lein, i weld beth oedd ymwybyddiaeth cymunedau Mwslimaidd o’r rhaglen o waith yn cael ei darparu yn eu hardal leol hwy. Fe gafodd y cysylltiad i’r arolwg ei e-bostio i 64 o sefydliadau ar draws Cymru a daeth 29 o ymatebion, cyfradd ymateb o 45.3%.

Yn ystod yr arfarniad, fe gafodd OPM nifer o heriau yn gysylltiedig gyda chynnal gwaith maes a chasglu data. Er enghraifft, roedd yn anodd recriwtio pobl i gymryd rhan mewn cyfweiliadau am fod pobl yn ochelgar o gymryd rhan yn yr ymchwil, MCW ddim yn ymateb i geisiadau am ddata, ac nad oedd rhestrau presenoldeb ar gael.

Tystiolaeth o'r effaith - canfyddiadau

Yn y rhannau isod, rydym yn trafod i ba raddau y cyflawnwyd nifer o ddeilliannau oedd wedi'u bwriadu a'u henwi yn y model theori newid.

Deilliant a fwriadwyd: Sefydliadau Mwslimaidd yn datblygu'r strwythur trefniadol, gwybodaeth a sgiliau maen nhw eu hangen i gefnogi'n well y cymunedau Mwslim maen nhw'n eu gwasanaethu.

Roedd yr elfennau wedi'u dylunio i ateb y deilliant hwn yn cynnwys hyfforddiant llywodraethu, hyfforddiant amddiffyn plant, hyfforddiant Radical Middle Way ar ganfod a thaclo syniadaeth eithafol a dosbarthiadau ESOL i Imams. Roedd hefyd yn cynnwys darparu Ijazahs i Imams. Fodd bynnag, dim ond yr hyfforddiant llywodraethu, hyfforddiant amddiffyn plant a'r hyfforddiant Radical Middle Way gafodd eu darparu.

Roedd y bobl gafodd eu cyfweld ac oedd wedi mynd ar yr hyfforddiant llywodraethu ac amddiffyn plant yn dweud eu bod wedi'u gweld yn ddefnyddiol iawn. Roeddent yn gallu rhoi llawer o enghreifftiau o

sut roedd yr hyfforddiant wedi'u cymhell hwy i wella arferion gweithredu sefydliadau Mwslimaidd.

Roedd y rhai fu ar yr hyfforddiant Radical Middle Way hefyd yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi'u paratoi hwy'n well i ddiogelu'r cymunedau roeddent yn eu gwasanaethu, yn enwedig pobl ifanc, yn erbyn dadleuon yr eithafwyr. Roedd llawer o'r rhai fu'n cymryd rhan hefyd yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r dadleuon a'r camddehongli o Islam y bydd grwpiau eithafol yn eu defnyddio i recriwtio pobl fregus.

Deilliant a fwriadwyd: Sefydliadau Mwslimaidd yn datblygu gwell gweithio mewn partneriaeth rhyngddynt eu hunain ac asiantaethau statudol, fel yr heddlu.

Roedd tair gwahanol elfen i'r rhaglen, wedi'u dylunio i gyfrannu at y deilliant hwn. Roedd y rheiny'n cynnwys yr hyfforddiant llywodraethu ac amddiffyn plant a'r ymgysylltu rhwng Imams a swyddogion o'r heddlu. Ar fater yr hyfforddiant llywodraethu ac amddiffyn plant, ychydig iawn o

dystiolaeth oedd i'w weld bod cymryd rhan yn yr hyfforddiant wedi arwain at well weithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr o sefydliadau Mwslimaidd eraill.

O ran y cyfarfodydd rhwng Imams a swyddogion o'r heddlu, ni chafodd unrhyw gyfweiliadau eu cynnal gydag Imams oherwydd anhawster gyda chael gwybod pwy oedd wedi bod i'r cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, roedd dau swyddog o'r heddlu a gafodd eu cyfweld yn dweud bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn ac yn eu barn hwy'n gymorth i adeiladu ymddiriedaeth a hyder ymysg y rhai oedd yn bresennol.

Deilliant a fwriadwyd: Merched a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn cymryd fwy a mwy o ddiddordeb mewn bywyd dinesig a chymunedol
Roedd yr elfennau wedi'u dylunio i gyfrannu at yr eitem hon yn cynnwys sesiynau yn digwydd ddim ond unwaith, ar ddinasyddiaeth, hunaniaeth Mwslimaidd Prydeinig a chyfrifoldeb dinesig. Yn anffodus, ni chafodd unrhyw gyfweiliadau eu cynnal gyda rhai fu'n cymryd rhan yn yr elfennau hyn o'r rhaglen, oherwydd nad oedd unrhyw restrau

presenoldeb ar gael, felly mae'n amhosibl gwneud sylwadau ar effaith y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, mae'r deilliant uchod wedi cael ei ateb i raddau gan y prosiectau arweinyddiaeth ieuentid iLead. Roedd y rheiny nid yn unig yn annog mwy o gymryd rhan mewn bywyd cymunedol ond hefyd yn annog y rhai fu'n cymryd rhan i gymryd rolau arweinyddiaeth yn y gymuned.

Deilliant a fwriadwyd: Ieuentid Mwslimaidd sy'n cymryd rhan yn llai agored i gael eu recriwtio gan grwpiau eithafol

Roedd dwy elfen o'r rhaglen hon wedi'u dylunio i ateb y deilliant hwn. Roedd y gyntaf yn cynnwys sesiynau yn digwydd ddim ond unwaith, ar ddinasyddiaeth, hunaniaeth Mwslimaidd Prydeinig a chyfrifoldeb dinesig. Ond ni chafodd unrhyw waith maes ei gynnal gyda'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr elfen hon oherwydd, fel rydym wedi nodi, doedd dim rhestrau presenoldeb wedi cael eu cadw ac felly does dim modd gwneud sylwadau ar effaith y gweithgareddau hyn. Roedd yr ail yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol misol i ferched

Mwslimaidd ifanc, wedi'u bwriadu fel dewis arall yn hytrach na chyfarfodydd y grŵp eithafol Al-Muhajiroun oedd wedi bod yn denu pobl ifanc a merched i Ganolfan Channel View yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth gyfyngedig bod y gweithgareddau hyn wedi gwneud i'r rhai fu'n cymryd rhan ynddynt fod yn llai agored i gael eu recriwtio gan grwpiau eithafol.

Doedd y rhai fu'n cymryd rhan eu hunain ddim yn gallu gweld bod cysylltiad yn yr ystyr fod y gweithgareddau hyn yn eu cadw rhag mynd i gyfarfodydd wedi'u trefnu gan rwydweithiau eithafol.

Pobl ifanc Mwslimaidd sy'n cymryd rhan wedi'u paratoi'n well i fod yn arweinyddion yn eu cymuned eu hunain

Roedd dwy elfen o'r rhaglen wedi'u dylunio i alluogi Mwslimiaid ifanc oedd yn cymryd rhan i fod wedi'u paratoi'n well i fod yn arweinyddion yn eu cymuned – y prosiect datblygu arweinyddiaeth ieuencid iLead i rai 13 i 16 mlwydd oed, a phrosiect tebyg i rai dros 16 oed. Mae tystiolaeth dda bod y prosiectau hyn wedi galluogi'r rhai fu'n cymryd rhan i ddatblygu amrediad o sgiliau defnyddiol ac

ymarferol a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n well i gymryd rolau arweiniol yn y gymuned.

Gweithredu'r rhaglen

ADFYWIAD

Mae'n ymddangos mai'r rhannau mwyaf sylweddol o'r rhaglen oedd yr hyfforddiant llywodraethu ac amddiffyn plant, y prosiect arweinyddiaeth ieuencid iLead, y gweithgareddau cymdeithasol misol i ferched a'r sesiynau hyfforddi Radical Middle Way. Ni wnaeth dwy elfen o'r rhaglen wreiddiol o waith ddigwydd - dosbarthiadau ESOL i Imams, a darparu Ijazahs i Imams - ac ychydig o ehangu a ddigwyddodd i'r rhaglen ymhellach ymlaen.

Yn ychwanegol, mae'n aneglur i ba raddau roedd gan y rhaglen ei brand gwahanol ei hunan. Roedd y rhai fu'n cymryd rhan yn tueddu i gysylltu'r rhaglenni hyfforddi gyda MCW yn hytrach na brand ADFYWIAD, er bod deunyddiau marchnata a thystysgrifau presenoldeb yn tueddu i ddangos cymysgedd o frandio MCW ac ADFYWIAD. Roedd y rhai wnaeth ymateb i'r arolwg hefyd yn tueddu i adleisio'r canfyddiadau hyn.

Argymhellion

Comisiynu, rheoli a darparu

rhaglenni

- Yn y dyfodol, dylai LIC gomisiynu rhaglenni trwy broses dendro agored sy'n cynnwys amcanion eglur ar gyfer y deilliannau, sut bydd y rhain yn cael eu mesur, gofynion adrodd tynnach ac eglurder am recriwtio a gwariant ar y prosiect. Bydd hyn yn cynyddu ansawdd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno i redeg y math yma o raglen.
- Dylai unrhyw raglenni yn y dyfodol gynnwys proses gynllunio hirach.

Cefnogi pobl sy'n agored i

eithafiaeth dreisiol

- Mae angen i raglenni yn y dyfodol sy'n cael eu hariannu gyda'r nod o atal pobl rhag cymryd rhan mewn eithafiaeth dreisiol fod yn canolbwyntio'n eglur ar dacio'r unigolion hynny mae risg iddynt ac sy'n agored i gael eu denu tuag at eithafiaeth dreisiol.
- Mae angen ymchwil i edrych beth sy'n gyrru ymlaen ac yn achosi eithafiaeth dreisiol yng

Nghymru, gan roi sail gryfach o dystiolaeth fel gwybodaeth ar gyfer comisiynu

gweithgareddau Prevent yn y dyfodol.

Gwersi ar gyfer elfen Prevent y Strategaeth Cydlyniad

Mae'r arfarniad hwn wedi canfod bod y rhaglen hon, fel gyda llawer o raglenni wedi'u hariannu gan Prevent yn y Deyrnas Unedig yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf, yn ceisio hyrwyddo cydlyniad ar yr un pryd â thaclo eithafiaeth dreisiol. Mae risg ymhlyg i nodau cydlyniad ehangach y rhaglen hon os bydd y rhaglen yn parhau i dargedu dim ond cymunedau Mwslimaidd.

- Mae nifer o'r rhai fu'n cymryd rhan mewn gwahanol elfennau o'r rhaglen (iLead, llywodraethu a sesiynau hyfforddi'r Radical Middle Way) wedi datblygu rhai o'r sgiliau mae eu hangen i ddarparu elfennau o'r rhaglen eu hunain. Er mwyn cynnal y gweithgareddau hyn tu draw i derfynau ariannu a chwmpas y rhaglen hon, dylai LIC ymchwilio i ffyrdd o wneud hyfforddiant, cyfleoedd ariannu a chelfi ar gael i'r rhai sydd â diddordeb er mwyn iddynt allu darparu'r

elfennau hyn o'r rhaglen yn eu cymunedau lleol.

- Dylai LIC ystyried prosiectau i'r dyfodol sy'n ceisio taclo pob ffurf o eithafiaeth ac nid ddim ond eithafiaeth wedi'i ysbrydoli gan Al Qaeda. Gallai hyn gynnwys prosiectau sy'n dod â phobl o wahanol ffydd at ei gilydd i ymchwilio sut gallant weithio gyda'i gilydd i daclo rhai o'r pethau sy'n achosi eithafiaeth o'r math wedi'i ysbrydoli gan Al Qaeda a'r dde eithafol, fel torri i lawr ragfarn wedi'i seilio ar ethnigrwydd a chrefydd.

Awdur: Sanah Sheikh, Shama Sarwar, ac Ewan King (OPM)

ISBN 978 0 7504 7659 1